# Ein maniffesto i Gymru

THE COLLEGE OF OPTOMETRISTS

## Sicrhau gofal llygaid cynaliadwy yng Nghymru

**Mae 112,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda cholled golwg (3.5% o'r boblogaeth). Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 133,000 erbyn 2032, ac yn dyblu erbyn 2050.[1]**

**Mae darpariaeth gofal llygaid yng Nghymru yn arloesol ac yn flaengar, gan ddefnyddio sgiliau a chymwyseddau clinigol llawn optometryddion. Cafodd hyn ei ategu gan newidiadau deddfwriaethol i gyflwyno Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) yn 2023, gan arwain at fwy na 90,000 o apwyntiadau optometreg ychwanegol yn 2024-25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[2]**

Mae dros 1,200 o optometryddion hyfforddedig iawn[3] yng Nghymru yn cynnal mwy na 865,000 o brofion golwg y GIG bob blwyddyn[4]. Maent yn gwirio iechyd golwg ac iechyd llygaid, a gallant hefyd wneud diagnosis, monitro a thrin cyflyrau llygaid fel cataractau a glawcoma. Mae gan lawer o optometryddion gymwysterau uwch ychwanegol, gan gynnwys y gallu i ragnodi meddyginiaethau, a gallant reoli cleifion ag anghenion gofal llygaid mwy cymhleth, gan osgoi'r angen i anfon cleifion i ysbytai sydd eisoes dan bwysau.

Drwy adeiladu ar y sylfaen gref hon a pharhau i flaenoriaethu gofal llygaid sylfaenol a chymunedol, gall llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu gwasanaethau optometreg ymhellach, gan sicrhau y gall pawb gael y gofal arbenigol sydd ei angen arnynt yn gyflymach a darparu canlyniadau gwell i gleifion.

---

### Ein blaenoriaethau ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru:

1. Adeiladu gwasanaeth gofal llygaid cwbl ddigidol
2. Parhau i ehangu gwasanaethau gofal llygaid cymunedol
3. Buddsoddi mewn gweithlu optometreg cynaliadwy a medrus
4. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal llygaid.

# 1 Adeiladu gwasanaeth gofal llygaid cwbl ddigidol

## Ein galwad i weithredu

**Mae seilwaith digidol a chysylltedd mewn gofal llygaid ar ei hôl hi o gymharu â darparwyr gofal sylfaenol eraill y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae angen buddsoddi ar frys i alluogi cyfathrebu diogel dwyffordd rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gynnwys cofnod cleifion electronig a system atgyfeirio electronig. Bydd gwella gofal cyfunol rhwng offthalmolegwyr ac optometryddion mewn ysbytai a'r gymuned yn sicrhau bod optometreg yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn galluogi cleifion i gael mynediad at ofal llygaid o ansawdd uchel, amserol a diogel.**

**Rydym yn galw am:**

- Gyfathrebu dwyffordd cwbl ddigidol rhwng practisau optometreg a byrddau iechyd, gan gynnwys diddymu ffurflenni hawlio papur ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru.
- Mynediad optometryddion i gofnodion digidol, electronig a rennir cleifion, a chyflwyniad llawn system atgyfeirio electronig, gydag adborth gan ysbytai i optometryddion sy'n atgyfeirio.
- Cynnydd ar ddatblygu system ragnodi electronig ar gyfer optometreg, gan gysylltu â'r gwasanaeth Presgripsiynau Electronig sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd rhwng meddygfeydd teulu a fferyllfeydd cymunedol.
- Buddsoddi mewn safoni delweddu digidol a rhannu ffeiliau, gan gynnwys cefnogi mabwysiadu safonau delweddu rhyngwladol a chaffael technolegau priodol i alluogi rhannu delweddau a ffeiliau.

## Y ddadl dros newid

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal amserol a chydlynol, mae'n hanfodol i optometryddion cymunedol - yn enwedig y rhai sy'n rhagnodi ac yn darparu gwasanaethau glawcoma, retina meddygol a gofal llygaid brys - allu cael mynediad at gofnodion cleifion electronig a rennir a gwneud atgyfeiriadau digidol di-dor. Rhaid i'r systemau hyn hefyd alluogi adborth yn dilyn atgyfeiriadau cleifion, megis pa driniaeth y mae eu cleifion wedi'i derbyn.

Nid yw delweddau digidol a rennir rhwng gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd bob amser yn ddarllenadwy ar beiriannau gwahanol, felly yn aml mae angen i gleifion ailadrodd creu delweddau yn yr ysbyty ar ôl atgyfeirio. Gall hyn arwain at oedi sy'n achosi colli golwg y gellir ei osgoi. Byddai safoni delweddu digidol drwy fabwysiadu manylebau rhyngwladol presennol yn datrys hyn, a gobeithiwn y bydd llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cefnogi gwaith Coleg yr Optometryddion a phartneriaid yn y maes hwn.

### Manteision i gleifion a'r gwasanaeth iechyd:

- ✓ Cyflymu atgyfeiriadau, diagnosisau a thriniaeth
- ✓ Lleihau'r risg o golli golwg y gellir ei osgoi oherwydd oedi
- ✓ Gwella gweithio amlddisgyblaethol, dysgu ac ehangu gwasanaethau
- ✓ Lleihau'r baich gweinyddol a rhyddhau amser optometryddion ar gyfer gwaith clinigol
- ✓ Darparu gwasanaethau mwy gwyrdd
- ✓ Gwella casglu data ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymchwil.

# 2 Parhau i ehangu gwasanaethau gofal llygaid cymunedol

## Ein galwad i weithredu

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol a llunwyr polisi iechyd i wneud defnydd llawn o weithlu optometreg medrus iawn Cymru. Rhaid i'r cyhoedd ystyried optometryddion fel y man galw cyntaf ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru. Rydym yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i gyflawni'r targed a addawyd o greu 30,000 o apwyntiadau gofal llygaid sylfaenol ychwanegol y flwyddyn ar gyfer cleifion a fyddai wedi cael eu gweld yn yr ysbyty yn hanesyddol.[5] Mae buddsoddi a chynnydd mewn cyfathrebu digidol yn allweddol i alluogi hyn.**

## Y ddadl dros newid

Mae pobl yn dioddef colli golwg y gellir ei atal oherwydd oedi wrth gael mynediad at wasanaeth llygaid yr ysbyty, ac mae'r galw am ofal llygaid yn cynyddu. Offthalmoleg yw'r arbenigedd cleifion allanol prysuraf yng Nghymru, gyda mwy nag 1 o bob 20 o bobl yn aros am apwyntiad offthalmoleg, ac yn cyfrif am 1 o bob 8 claf (dros 80,000 o bobl) ar restrau aros GIG Cymru. Rhagwelir y bydd y galw yn codi 40% dros yr 20 mlynedd nesaf, wedi'i yrru gan boblogaeth sy'n heneiddio a chyflyrau cronig fel diabetes a glawcoma.[6]

Mae gan Gymru 1.97 o offthalmolegwyr fesul 100,000 o'r boblogaeth, sy'n is na'r gymhareb isafswm a argymhellir gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr o 3 i 100,000 i ddarparu gwasanaethau llygaid ysbytai effeithiol.[7] Mae llawer o safleoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a gorllewin Cymru, yn wynebu problemau recriwtio a dargadw sylweddol.

Bwriad llwybrau optometreg newydd Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yw lleihau'r pwysau ar offthalmoleg mewn ysbytai a meddygon teulu drwy alluogi rheoli a monitro cleifion risg isel o fewn gofal llygaid cymunedol. Mae gwasanaethau cymunedol uwch yn cynnwys darparu cymhorthion golwg gwan, monitro retina a glawcoma meddygol gan optometryddion cymwys iawn, a gwasanaethau "damweiniau llygaid" gofal sylfaenol ar gyfer achosion brys. Rhaid i lywodraeth newydd Cymru ymrwymo i gynnal a thyfu'r gwasanaethau hyn er budd cleifion ledled Cymru.

### Manteision i gleifion a'r gwasanaeth iechyd:

- Mynediad cyflymach at ofal llygaid, yn agosach at adref
- Llai o achosion o golli golwg y gellid ei atal ac na ellir ei wrthdroi drwy ganfod a rheoli cyflyrau yn gynharach
- Defnydd gwell o arbenigedd optometryddion
- Cynyddu capasiti ysbyty ar gyfer achosion cymhleth
- Defnydd mwy effeithlon o adnoddau GIG Cymru.

# 3 Buddsoddi mewn gweithlu optometreg cynaliadwy a medrus

## Ein galwad i weithredu

**Mae Cymru yn wynebu galw cynyddol am ofal llygaid, ond nid oes cynllun cenedlaethol i sicrhau bod digon o optometryddion yn cael eu hyfforddi, eu cadw a'u cefnogi - yn enwedig mewn cymunedau gwledig a chymunedau heb wasanaeth digonol. Mae diffyg strategaeth genedlaethol ar gyfer y gweithlu gofal llygaid sylfaenol yn effeithio ar recriwtio, uwchsgilio a darparu gwasanaethau teg i ddiwallu'r galw cynyddol.**

**Rydym yn galw am:**

- Strategaeth gweithlu genedlaethol ar gyfer optometreg i sicrhau bod gan gleifion fynediad at optometryddion medrus ledled Cymru - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig - ac i flaenoriaethu uwchsgilio i ddarparu gwasanaethau cymunedol uwch.
- Cyllid digonol i brifysgolion Cymru gefnogi myfyrwyr optometreg sy'n ymgymryd â dysgu clinigol israddedig ac ôl-raddedig ar y campws ac oddi arno.
- Cyllid ac adnoddau parhaus ar gyfer lleoliadau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd i gynnig hyfforddiant a phrofiadau clinigol ar gyfer rhagnodi cyn cofrestru ac ôl-raddedig a chymwysterau arbenigol.
- Buddsoddiad ychwanegol parhaus mewn cymwysterau uwch optometreg, presgripsiynu annibynnol a hyfforddiant i gefnogi gwella gwasanaethau, arweinyddiaeth ac addysgu eraill.

## Y ddadl dros newid

Mae'n hanfodol bod buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant yn ddigonol i sicrhau bod gan Gymru'r optometryddion sydd eu hangen arni, nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod optometreg yn parhau i fod yn broffesiwn deniadol i bobl ifanc yng Nghymru. Mae gweithlu cryf a medrus yn golygu bod cleifion yn cael gofal amserol o ansawdd uchel lle bynnag y maent yn byw.

Dylid buddsoddi mewn llwyddiannau diweddar fel Practisau Hyfforddiant Uwch (ATP)[8] a'u datblygu. Practisau optometreg cymunedol yw'r rhain a sefydlwyd fel canolfan ragoriaeth i optometryddion ôl-raddedig ymgymryd â lleoliadau clinigol rhagnodi annibynnol. Yn 2025 sefydlodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) 22 o ATPau a hwyluso 389 o sesiynau lleoli clinigol presgripsiynu annibynnol. Yn ogystal, dros y tair blynedd diwethaf mae mwy na 250 o optometryddion wedi elwa o gyfleoedd noddedig mewn cymwysterau uwch fel Golwg Gwan, Glawcoma a Retina Meddygol. Mae tair Canolfan Addysgu a Thrin Gofal Llygaid yng Ngogledd, Gorllewin a De Cymru wedi bod yn hanfodol ar gyfer darparu cymwysterau uwch. Rhaid i'r llywodraeth nesaf barhau i fuddsoddi yn y cyfleoedd hanfodol hyn a'u hehangu i optometryddion ddatblygu eu sgiliau a chefnogi eu cleifion.

### Manteision i gleifion a'r gwasanaeth iechyd:

- ✓ Llai o bwysau ar wasanaeth llygaid yr ysbyty
- ✓ Darparu gofal llygaid o ansawdd uchel mewn ffordd gynaliadwy yn y gymuned, gan ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a chyfraddau cynyddol clefydau llygaid
- ✓ Lleihau'r loteri cod post mynediad at ofal llygaid cymunedol uwch
- ✓ Gweithlu optometreg sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

# 4 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal llygaid

## Ein galwad i weithredu

**Dylai pawb yng Nghymru allu cael mynediad at y gofal llygaid sydd ei angen arnynt, waeth beth fo'u lleoliad a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae optometryddion sy'n gweithio yn y gymuned mewn sefyllfa ddelfrydol i gyfleu negeseuon iechyd cyhoeddus ar iechyd a ffordd o fyw, yn ogystal â'u rôl graidd hanfodol ym maes iechyd llygaid. Gallant nodi cyflyrau fel diabetes a gorbwysedd ac, oherwydd eu lleoliad yng nghanol trefi, mae ganddynt gwmpas uchel o gleifion.**

**Rydym yn galw am:**

- Mwy o ymyriadau iechyd cyhoeddus ac ymgyrch addysg gyhoeddus i annog pobl i fynychu archwiliadau llygaid rheolaidd, wedi'u targedu'n benodol at gymunedau mwy difreintiedig.
- Buddsoddiad cynyddol yn y dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yng Nghymru, gan gynnwys cyllid, cefnogaeth a hyfforddiant i optometryddion.[9]

## Y ddadl dros newid

Mae'n allweddol i'r cyhoedd ddeall pwysigrwydd archwiliadau llygaid rheolaidd, sy'n hanfodol wrth ganfod arwyddion cynnar clefyd y llygaid ac atal colli golwg. Mae archwiliadau llygaid rheolaidd hefyd yn rhoi cyfle i optometryddion nodi llawer o gyflyrau iechyd ehangach fel pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel a diabetes, na fyddent fel arall yn cael eu canfod, yn enwedig gan unigolion nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Dywedodd **47% o gleifion** a holwyd yng Nghymru y byddent yn ceisio triniaeth gan eu meddyg teulu, fferyllfa, adran damweiniau ac achosion brys, neu ddim o gwbl pe bai ganddynt broblem llygaid[10] yn hytrach nag optometrydd.

Mae astudiaethau'n dangos bod cysylltiad rhwng incwm isel a cholli golwg. Mae 48% o bobl sydd wedi colli eu golwg yn dweud eu bod yn byw mewn aelwyd sydd â chyfanswm incwm o lai na £300 yr wythnos, o'i gymharu â 19% o bobl heb golli eu golwg. Mae pobl â golwg gwan hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd mwy difreintiedig.[11]

### Manteision i gleifion a'r gwasanaeth iechyd:

- ✓ Mae cleifion yn cael y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir
- ✓ Llai o bwysau ar feddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys
- ✓ Nodi cyflyrau iechyd ehangach yn gynnar na fyddent wedi cael eu canfod fel arall.

Yn 2024-2025, cyflwynodd optometryddion[12]:

## 865,000

dros 865,000 o brofion golwg a ariennir gan y GIG

## 280,000

mwy na 280,000 o archwiliadau brys

## 26,000

mwy na 26,000 o apwyntiadau rhagnodi annibynnol

## 1.4 miliwn

Ymdriniwyd â dros **1.4 miliwn o ffurflenni papur** gan wasanaeth gofal llygaid GIG Cymru yn 2023/24.[13]

## 1 o bob 20

Mae **1 o bob 20 o bobl** yng Nghymru ar hyn o bryd yn aros am apwyntiad offthalmoleg a rhagwelir y bydd y galw yn codi 40% dros yr 20 mlynedd nesaf.[14]

Cysylltwch â ni:
**policy@college-optometrists.org**

Am gyfeiriadau ewch i **college-optometrists.org/ManifestoWales**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.